*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 13A(8) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U  D R A F F T

# 2025 Rhif (Cy. )

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

# Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 ("y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig") a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 ("y Rheoliadau Cynllun Diofyn") a wnaed o dan adran 13A(4) a (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, ac Atodlen 1B iddi.

Mae'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod bilio yng Nghymru wneud cynllun sy'n pennu'r gostyngiadau sydd i fod yn gymwys i symiau o'r dreth gyngor sy'n daladwy gan bersonau, neu gan ddosbarthau ar bersonau, y mae'r awdurdod yn ystyried eu bod mewn angen ariannol. Mae'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig hefyd yn nodi'r materion y mae rhaid eu cynnwys mewn cynllun o'r fath.

Mae'r Rheoliadau Cynllun Diofyn yn nodi cynllun a fydd yn cymryd effaith, mewn cysylltiad ag anheddau yn ardal awdurdod bilio, os yw'r awdurdod hwnnw yn methu â gwneud ei gynllun ei hun.

Mae rheoliad 3 yn mewnosod diffiniadau newydd yn y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig o ganlyniad i ddiwygiadau eraill a wneir gan y Rheoliadau hyn. Mae rheoliad 13 yn gwneud yr un diwygiadau i'r Rheoliadau Cynllun Diofyn.

Mae rheoliad 28 o'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig yn darparu nad yw personau "sydd i'w trin fel rhai nad ydynt ym Mhrydain Fawr" yn gymwys am ostyngiad treth gyngor; hynny yw, pan nad ydynt yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu Weriniaeth Iwerddon. Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 28 o'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig i ddarparu ar gyfer esemptiadau pellach rhag y prawf preswylio fel arfer ar gyfer personau sydd wedi eu dadleoli gan drais yn Sudan, Israel, y Lan Orllewinol, Llain Gaza, Dwyrain Jerwsalem, Ucheldiroedd Golan neu Libanus, yn dibynnu ar statws mewnfudo, ac ar gyfer y rhai sy'n cael caniatâd dros dro i aros yn y Deyrnas Unedig o dan y consesiwn Dioddefwyr Mudol Cam-drin Domestig (sy'n disodli'r consesiwn Amddifadedd Trais Domestig). Gwneir yr un diwygiadau i baragraff 19(5) o'r Rheoliadau Cynllun Diofyn gan reoliad 14.

Mae'r diwygiadau a wneir i'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig gan reoliadau 5(a)(i) a (jj), 6, 8(a)(i) a (ii) a 9 yn uwchraddio ffigurau penodol a ddefnyddir i gyfrifo a oes gan berson hawlogaeth i ostyngiad, ac os felly, swm y gostyngiad hwnnw. Mae'r ffigurau uwchraddedig yn gymwys i ddidyniadau annibynyddion (addasiadau a wneir i uchafswm y gostyngiad y gall person ei gael gan ystyried oedolion sy'n byw yn yr annedd nad ydynt yn ddibynyddion y ceisydd) ac i'r swm cymwysadwy (y swm y cymherir incwm ceisydd ag ef er mwyn penderfynu swm y gostyngiad, os oes un, y gall fod gan y ceisydd hawlogaeth i'w gael). Mae nifer o ffigurau eraill hefyd yn cael eu huwchraddio i adlewyrchu newidiadau i amryw hawlogaethau eraill. Gwneir yr un diwygiadau i'r Rheoliadau Cynllun Diofyn gan reoliadau 15(a) a (b), 20 ac 21.

Mae rheoliadau 5(a)(iii), 7, 8(a)(iii) a 10 yn diwygio darpariaethau'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig sy'n ymwneud ag incwm neu gyfalaf ceisydd am ostyngiad treth gyngor sydd i'w ddiystyru wrth gyfrifo'r gostyngiad hwnnw. Mae'r diwygiadau'n ychwanegu at y rhestr o daliadau "diystyriadau cyfalaf" o dan y Cynllun Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth Dramor. Gwneir yr un diwygiadau i'r Rheoliadau Cynllun Diofyn gan reoliadau 15(c), 22 a 23.

Mae rheoliadau 5(b) ac 8(b) a (d) yn diwygio'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig i ddiweddaru cyfeiriad blaenorol mewn perthynas â thâl profedigaeth rhiant statudol. Gwneir yr un diwygiadau i'r Rheoliadau Cynllun Diofyn gan reoliad 16.

Mae rheoliadau 5(c) a (d) ac 8(c) a (d) yn diwygio'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig yn dilyn cyflwyno trin enillwyr hunangyflogedig ag elw ar y trothwy elw isel neu uwchlaw'r trothwy hwnnw fel pe baent wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 a dileu atebolrwydd i dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol

Dosbarth 2. Mae'r diwygiadau'n dileu cyfeiriadau a darpariaethau deddfwriaethol sy'n ymwneud ag atebolrwydd i dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 fel bod y ddeddfwriaeth yn parhau i weithio fel y'i bwriadwyd. Caiff yr un diwygiadau eu gwneud gan reoliadau 17 a 18 mewn perthynas â'r Rheoliadau Cynllun Diofyn.

Mae rheoliad 11 yn diwygio'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig i ganiatáu i gais am ostyngiad treth gyngor gael ei drin fel pe bai wedi ei wneud pan fo person wedi hawlio credyd cynhwysol ac mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi gwybodaeth i'r awdurdod bilio gweinyddu am yr hawliad hwnnw. Gwneir yr un diwygiad i'r Rheoliadau Cynllun Diofyn gan reoliad 19.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac fe'i cyhoeddir ar www.llyw.cymru.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 13A(8) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U  D R A F F T

# 2025 Rhif (Cy. )

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *24 Ionawr 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 13A(4) a (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**) a pharagraffau 2 i 6 o Atodlen 1B iddi.

Yn unol ag adran 13A(8) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**2**).

**Enwi, dod i rym, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 24 Ionawr 2025.

---

(**1**) 1992 p. 14. Amnewidiwyd adran 13A gan adran 10(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 (p. 17). Mewnosodwyd Atodlen 1B gan adran 10(2) o'r Ddeddf honno, a pharagraff 1 o Atodlen 4 iddi. Gweler adran 116(1) o Ddeddf 1992 am y diffiniad o "prescribed". Mae adran 13A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, ac Atodlen 1B iddi, wedi eu diwygio gan adran 19 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2021 (dsc 6), nad yw eto mewn grym.

(**2**) Mae'r cyfeiriad yn adran 13A(8) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), fel y'i diwygiwyd gan adran 9 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1), a pharagraff 2(7)(c) o Atodlen 1 iddi.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â chynllun gostyngiadau'r dreth gyngor a wneir ar gyfer blwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2025 neu ar ôl hynny.

(4) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "awdurdod bilio" yr ystyr a roddir i "billing authority" yn adran 1(2)(b) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992");

ystyr "cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor" ("*council tax reduction scheme*") yw cynllun a wneir gan awdurdod bilio yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013(**1**), neu'r cynllun sy'n gymwys yn ddiofyn yn rhinwedd paragraff 6(1)(e) o Atodlen 1B i Ddeddf 1992.

**Diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013**

**2.** Mae Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 11.

**3.** Yn rheoliad 2(1) (dehongli)—

(a) yn y diffiniad o "person cymwys", ar ôl "Cronfa Argyfwng We Love Manchester," mewnosoder "y Cynllun Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth Dramor,";

(b) ar ôl y diffiniad o "taliad niwed drwy frechiad" mewnosoder—

"ystyr "y Cynllun Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth Dramor"(**2**) ("*the Victims of Overseas Terrorism Compensation Scheme*") yw'r cynllun sy'n dwyn yr enw hwnnw a sefydlwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2012 o dan adran 47 o Ddeddf Trosedd a Diogelwch 2010(**3**);".

**4.** Yn rheoliad 28(5) (personau sydd i'w trin fel rhai nad ydynt ym Mhrydain Fawr)—

(a) yn is-baragraff (e)(ii), yn lle "consesiwn Amddifadedd Trais Domestig" rhodder

---

(**1**) O.S. 2013/3029 (Cy. 301), a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/66 (Cy. 6), O.S. 2014/513, O.S. 2014/825 (Cy. 83), O.S. 2015/44 (Cy. 3), O.S. 2015/971, O.S. 2016/50 (Cy. 21), O.S. 2017/46 (Cy. 20), O.S. 2018/14 (Cy. 7), O.S. 2019/11 (Cy. 5), O.S. 2020/16 (Cy. 2), O.S. 2021/34 (Cy. 9), O.S. 2022/51 (Cy. 19). O.S. 2022/634, O.S. 2022/1329, O.S. 2023/47 (Cy. 6), O.S. 2023/1071 ac O.S. 2024/56 (Cy. 16).

(**2**) Cyhoeddir Cynllun Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth Dramor yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/243508/9780108512124.pdf.

(**3**) 2010 p. 17.

"consesiwn Dioddefwyr Mudol Cam-drin Domestig(**1**)";

(b) ar ôl is-baragraff (n) hepgorer "neu";

(c) ar ôl is-baragraff (o) mewnosoder—

"(p) yn berson ym Mhrydain Fawr a oedd yn preswylio yn Sudan cyn 15 Ebrill 2023, a adawodd Sudan mewn cysylltiad â'r trais a wnaeth ddwysáu yn gyflym ar 15 Ebrill 2023 yn Khartoum a ledled Sudan ac—

(i) y rhoddwyd caniatâd iddo yn unol â rheolau mewnfudo a wnaed o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971(**2**),

(ii) sydd â hawl i breswylio yn y Deyrnas Unedig o fewn yr ystyr a roddir yn adran 2(**3**) o'r Ddeddf honno, neu

(iii) nad yw'n ofynnol iddo gael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi yn unol ag adran 3ZA(**4**) o'r Ddeddf honno; neu

(q) yn berson ym Mhrydain Fawr a oedd yn preswylio yn Israel, y Lan Orllewinol, Llain Gaza, Dwyrain Jerwsalem, Ucheldiroedd Golan neu Libanus yn union cyn 7 Hydref 2023, a adawodd Israel, y Lan Orllewinol, Llain Gaza, Dwyrain Jerwsalem, Ucheldiroedd Golan neu Libanus mewn cysylltiad ag ymosodiad terfysgol Hamas yn Israel ar 7 Hydref 2023 neu'r trais a wnaeth ddwysáu yn gyflym yn y rhanbarth yn dilyn yr ymosodiad ac—

(i) y rhoddwyd caniatâd iddo yn unol â rheolau mewnfudo a wnaed o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971,

(ii) sydd â hawl i breswylio yn y Deyrnas Unedig o fewn yr ystyr a roddir yn adran 2 o'r Ddeddf honno, neu

(iii) nad yw'n ofynnol iddo gael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas

(**1**) Cyhoeddir y consesiwn Dioddefwyr Mudol Cam-drin Domestig yn https://www.gov.uk/government/publications/victims-of-domestic-violence/migrant-victims-of-domestic-abuse-concession-accessible.

(**2**) 1971 p. 77, y mae diwygiadau iddi nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**3**) Amnewidiwyd adran 2 gan adran 39(2) o Ddeddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981 (p. 61) ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2019/745.

(**4**) Mewnosodwyd adran 3ZA gan adran 2(2) o Ddeddf Mewnfudo a Chyd-drefnu Nawdd Cymdeithasol (Ymadael â'r UE) 2020 (p. 20).

Unedig neu i aros ynddi yn unol ag adran 3ZA o'r Ddeddf honno."

**5.** Yn Atodlen 1 (penderfynu cymhwystra am ostyngiad: pensiynwyr)—

(a) ym mharagraff 3(1)—

(i) ym mharagraff (a), yn lle "£17.35" rhodder "£18.70";

(ii) ym mharagraff (b), yn lle "£5.80" rhodder "£6.25";

(b) ym mharagraff 3(2)—

(i) ym mharagraff (a), yn lle "£256.00" rhodder "£266.00";

(ii) ym mharagraff (b), yn lle "£256.00", "£445.00" ac "£11.55" rhodder "£266.00", "£463.00" a "£12.45" yn y drefn honno;

(iii) ym mharagraff (c), yn lle "£445.00", "£554.00" a "£14.50" rhodder "£463.00", "£577.00" a "£15.65" yn y drefn honno;

(c) ym mharagraff 3(9)(c), ar ôl "Cronfa Argyfwng We Love Manchester" mewnosoder ", y Cynllun Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth Dramor";

(d) ym mharagraff 19(15)(c) (trin costau gofal plant: pensiynwyr), yn lle "171ZZ" rhodder "171ZZ6(**1**)";

(e) ym mharagraff 22(c) (diystyru newidiadau mewn treth, cyfraniadau etc)—

(i) ar ôl "cyfraniadau Dosbarth 1 o dan y Ddeddf honno," yn lle "y" rhodder "neu'r";

(ii) hepgorer "neu'r swm a bennir yn adran 11(4)(a) o'r Ddeddf honno (trothwy elw is mewn perthynas â chyfraniadau Dosbarth 2)";

(f) ym mharagraff 24(3) (cyfrifo didyniad treth a chyfraniadau enillwyr hunangyflogedig), hepgorer paragraff (a) a'r "a" ar ei ôl.

**6.** Yn Atodlen 2 (symiau cymwysadwy: pensiynwyr)—

(a) yng ngholofn (2) o'r Tabl ym mharagraff 1 (lwfans personol)—

(i) yn is-baragraff (1), yn lle "£235.20" rhodder "£244.40";

(ii) yn is-baragraff (2), yn lle "£352.00" rhodder "£366.00";

---

(**1**) Mewnosodwyd adran 171ZZ6 yn Neddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992 (p. 4) gan baragraff 5 o Atodlen 1 i Ddeddf Profedigaeth Rhiant (Absenoldeb a Thâl) 2018 (p. 24).

(iii) yn is-baragraff (3), yn lle “£352.00” a “£116.80” rhodder “£366.00” a “£121.60” yn y drefn honno;

(b) yng ngholofn (2) o’r Tabl ym mharagraff 2(1) (symiau plentyn neu berson ifanc), yn lle “£83.24”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “£84.66”;

(c) ym mharagraff 3 (premiwm teulu), yn lle “£19.15” rhodder “£19.48”;

(d) yn yr ail golofn (swm) yn y Tabl ym mharagraff 12 (symiau’r premiymau a bennir yn Rhan 3)—

(i) yn is-baragraff (1), yn lle “£81.50”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “£82.90” ac yn lle “£163.00” rhodder “£165.80”;

(ii) yn is-baragraff (2), yn lle “£32.20” rhodder “£32.75”;

(iii) yn is-baragraff (3), yn lle “£80.01” rhodder “£81.37”;

(iv) yn is-baragraff (4), yn lle “£45.60” rhodder “£46.40”.

**7.** Yn Atodlen 5 (diystyriadau cyfalaf: pensiynwyr), ym mharagraff 16(1)(a), ar ôl “Cronfa Argyfwng We Love Manchester,” mewnosoder “y Cynllun Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth Dramor,”.

**8.** Yn Atodlen 6 (penderfynu cymhwystra am ostyngiad: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

(a) ym mharagraff 5(1)—

(i) ym mharagraff (a), yn lle “£17.35” rhodder “£18.70”;

(ii) ym mharagraff (b), yn lle “£5.80” rhodder “£6.25”;

(b) ym mharagraff 5(2)—

(i) ym mharagraff (a), yn lle “£256.00” rhodder “£266.00”;

(ii) ym mharagraff (b), yn lle “£256.00”, “£445.00” ac “£11.55” rhodder “£266.00”, “£463.00” a “£12.45” yn y drefn honno;

(iii) ym mharagraff (c), yn lle “£445.00”, “£554.00” a “£14.50” rhodder “£463.00”, “£577.00” a “£15.65” yn y drefn honno;

(c) ym mharagraff 5(9)(b), ar ôl “Cronfa Argyfwng We Love Manchester” mewnosoder “, y Cynllun Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth Dramor”;

(d) ym mharagraff 21(15)(c) (trin costau gofal plant), yn lle “171ZZ” rhodder “171ZZ6”;

(e) ym mharagraff 23(c) (diystyru newidiadau mewn treth, cyfraniadau etc)—

(i) ar ôl “cyfraniadau Dosbarth 1 o dan y Ddeddf honno,” yn lle “y” rhodder “neu’r”;

(ii) hepgorer “neu’r swm a bennir yn adran 11(4)(a) o’r Ddeddf honno (trothwy elw is mewn perthynas â chyfraniadau Dosbarth 2)”;

(f) ym mharagraff 25(3) (cyfrifo didyniad treth a chyfraniadau enillwyr hunangyflogedig), hepgorer paragraff (a) a’r “a” ar ei ôl.

**9.** Yn Atodlen 7 (symiau cymwysadwy: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

(a) yng ngholofn (2) o’r Tabl ym mharagraff 1 (lwfansau personol)—

(i) yn is-baragraff (1), yn lle “£96.45”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “£98.10” ac yn lle “£76.35” rhodder “£77.65”;

(ii) yn is-baragraff (2), yn lle “£96.45” rhodder “£98.10”;

(iii) yn is-baragraff (3), yn lle “£151.45” rhodder “£154.00”;

(b) yng ngholofn (2) o’r Tabl ym mharagraff 3(1), yn lle “£83.24”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “£84.66”;

(c) ym mharagraff 4(1)(b) (premiwm teulu), yn lle “£19.15” rhodder “£19.48”;

(d) yn yr ail golofn (swm) o’r Tabl ym mharagraff 17 (symiau’r premiymau a bennir yn Rhan 3)—

(i) yn is-baragraff (1), yn lle “£42.50” a “£60.60” rhodder “£43.20” a “£61.65” yn y drefn honno;

(ii) yn is-baragraff (2), yn lle “£81.50”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “£82.90” ac yn lle “£163.00” rhodder “£165.80”;

(iii) yn is-baragraff (3), yn lle “£80.01” rhodder “£81.37”;

(iv) yn is-baragraff (4), yn lle “£45.60” rhodder “£46.40”;

(v) yn is-baragraff (5), yn lle “£32.20”, “£20.85” a “£29.75” rhodder “£32.75”, “£21.20” a “£30.25” yn y drefn honno;

(e) ym mharagraff 23, yn lle “£35.95” rhodder “£36.55”;

(f) ym mharagraff 24, yn lle “£47.70” rhodder “£48.50”.

**10.** Yn Atodlen 10 (diystyriadau cyfalaf: personau nad ydynt yn bensiynwyr), ym mharagraff 29(1) ar ôl “Cronfa Argyfwng We Love Manchester,” mewnosoder “y Cynllun Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth Dramor,”.

**11.** Yn Atodlen 12 (pob ymgeisydd: materion y mae’n rhaid eu cynnwys mewn cynllun awdurdod — materion gweithdrefnol), ar ôl paragraff 7 mewnosoder—

“**Ceisiadau: hawlwyr credyd cynhwysol**

**7A.** Caniateir trin cais fel pe bai wedi ei wneud pan fo—

(a) person wedi gwneud hawliad am gredyd cynhwysol,

(b) yr Ysgrifennydd Gwladol wedi cyflenwi gwybodaeth berthnasol mewn perthynas â’r person hwnnw yn unol ag adran 131 o Ddeddf Diwygio Lles 2012(**1**) i’r awdurdod sy’n gweinyddu gostyngiad treth gyngor, ac

(c) y person hwnnw yn atebol i dalu treth gyngor i’r awdurdod hwnnw.”

**Diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013**

**12.** Mae’r cynllun a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013(**2**) wedi ei ddiwygio yn unol â rheoliadau 13 i 23.

**13.** Ym mharagraff 2(1) (dehongli)—

(a) yn y diffiniad o “person cymwys”, ar ôl “Cronfa Argyfwng We Love Manchester,” mewnosoder “y Cynllun Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth Dramor,”;

(b) ar ôl y diffiniad o “taliad niwed drwy frechiad” mewnosoder—

“ystyr “y Cynllun Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth Dramor” (“*the Victims of Overseas Terrorism Compensation Scheme*”) yw’r cynllun sy’n dwyn yr enw hwnnw a sefydlwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2012 o dan adran 47 o Ddeddf Trosedd a Diogelwch 2010;”.

---

(**1**) 2012 p. 5. Mae adran 131 wedi ei diwygio gan Atodlen 14 o’r Ddeddf honno, ond nid yw’r diwygiadau hynny mewn grym eto. Diwygiwyd adran 131 gan adran 20 o Ddeddf Diwygio Lles a Gwaith 2016 (p. 7) a chan adran 4 o Ddeddf Cymru 2014 (p. 29).

(**2**) O.S. 2013/3035 (Cy. 303), a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/66 (Cy. 6), O.S. 2014/513, O.S. 2014/825 (Cy. 83), O.S. 2014/852, O.S. 2015/44 (Cy. 3), O.S. 2015/971, O.S. 2016/50 (Cy. 21), O.S. 2017/46 (Cy. 20), O.S. 2018/14 (Cy. 7), O.S. 2019/11 (Cy. 5), O.S. 2020/16 (Cy. 2), O.S. 2021/34 (Cy. 9), O.S. 2022/51 (Cy. 19), O.S. 2022/634, O.S. 2022/1329, O.S. 2023/47 (Cy. 6), O.S. 2023/1071 ac O.S. 2024/56 (Cy. 16).

**14.** Ym mharagraff 19(5) (dosbarth o bersonau a eithrir o'r cynllun hwn: personau sydd i'w trin fel rhai nad ydynt ym Mhrydain Fawr)—

(a) ym mharagraff (e)(ii), yn lle "consesiwn Amddifadedd Trais Domestig" rhodder "consesiwn Dioddefwyr Mudol Cam-drin Domestig";

(b) ar ddiwedd paragraff (n) hepgorer "neu";

(c) ar ôl paragraff (o), mewnosoder—

"(p) yn berson ym Mhrydain Fawr a oedd yn preswylio yn Sudan cyn 15 Ebrill 2023, a adawodd Sudan mewn cysylltiad â'r trais a wnaeth ddwysáu yn gyflym ar 15 Ebrill 2023 yn Khartoum a ledled Sudan ac—

(i) y rhoddwyd caniatâd iddo yn unol â rheolau mewnfudo a wnaed o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971,

(ii) sydd â hawl i breswylio yn y Deyrnas Unedig o fewn yr ystyr a roddir yn adran 2 o'r Ddeddf honno, neu

(iii) nad yw'n ofynnol iddo gael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi yn unol ag adran 3ZA o'r Ddeddf honno; neu

(q) yn berson ym Mhrydain Fawr a oedd yn preswylio yn Israel, y Lan Orllewinol, Llain Gaza, Dwyrain Jerwsalem, Ucheldiroedd Golan neu Libanus yn union cyn 7 Hydref 2023, a adawodd Israel, y Lan Orllewinol, Llain Gaza, Dwyrain Jerwsalem, Ucheldiroedd Golan neu Libanus mewn cysylltiad ag ymosodiad terfysgol Hamas yn Israel ar 7 Hydref 2023 neu'r trais a wnaeth ddwysáu yn gyflym yn y rhanbarth yn dilyn yr ymosodiad ac—

(i) y rhoddwyd caniatâd iddo yn unol â rheolau mewnfudo a wnaed o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971,

(ii) sydd â hawl i breswylio yn y Deyrnas Unedig o fewn yr ystyr a roddir yn adran 2 o'r Ddeddf honno, neu

(iii) nad yw'n ofynnol iddo gael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi yn unol ag adran 3ZA o'r Ddeddf honno."

**15.** Ym mharagraff 28 (didyniadau annibynyddion: pensiynwyr a phersonau nad ydynt yn bensiynwyr)—

(a) yn is-baragraff (1)—

(i) ym mharagraff (a), yn lle “£17.35” rhodder “£18.70”;

(ii) ym mharagraff (b), yn lle “£5.80” rhodder “£6.25”;

(b) yn is-baragraff (2)—

(i) ym mharagraff (a), yn lle “£256.00” rhodder “£266.00”;

(ii) ym mharagraff (b), yn lle “£256.00”, “£445.00” ac “£11.55” rhodder “£266.00”, “£463.00” a “£12.45” yn y drefn honno;

(iii) ym mharagraff (c), yn lle “£445.00”, “£554.00” a “£14.50” rhodder “£463.00”, “£577.00” a “£15.65” yn y drefn honno;

(c) yn is-baragraff (9)(b), ar ôl “Cronfa Argyfwng We Love Manchester” mewnosoder “, y Cynllun Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth Dramor,”.

**16.** Ym mharagraff 55(15)(c) (trin costau gofal plant), yn lle “171ZZ” rhodder “171ZZ6”.

**17.** Ym mharagraff 57(c) (diystyru newidiadau mewn treth, cyfraniadau etc)—

(a) ar ôl “cyfraniadau Dosbarth 1 o dan y Ddeddf honno,”, yn lle “y” rhodder “neu’r”;

(b) hepgorer “neu’r swm a bennir yn adran 11(4)(a) o’r Ddeddf honno (trothwy elw is mewn perthynas â chyfraniadau Dosbarth 2)”.

**18.** Ym mharagraff 59(3) (cyfrifo didyniad treth a chyfraniadau enillwyr hunangyflogedig), hepgorer paragraff (a) a’r “a” ar ei ôl.

**19.** Yn Atodlen 1 (materion gweithdrefnol), ar ôl paragraff 7 mewnosoder—

“**Ceisiadau: hawlwyr credyd cynhwysol**

**7A.** Caniateir trin cais fel pe bai wedi ei wneud pan fo—

(a) person wedi gwneud hawliad am gredyd cynhwysol,

(b) yr Ysgrifennydd Gwladol wedi cyflenwi gwybodaeth berthnasol mewn perthynas â’r person hwnnw yn unol ag adran 131 o Ddeddf Diwygio Lles 2012 i’r awdurdod sy’n gweinyddu gostyngiad treth gyngor, ac

(c) y person hwnnw yn atebol i dalu treth gyngor i’r awdurdod hwnnw.”

**20.** Yn Atodlen 2 (symiau cymwysadwy: pensiynwyr)—

(a) yng ngholofn (2) o'r Tabl ym mharagraff 1 (lwfans personol)—

(i) yn is-baragraff (1), yn lle "£235.20" rhodder "£244.00";

(ii) yn is-baragraff (2), yn lle "£352.00" rhodder "£366.00";

(iii) yn is-baragraff (3), yn lle "£352.00" a "£116.80" rhodder "£366.00" a "£121.60" yn y drefn honno;

(b) yng ngholofn (2) o'r Tabl ym mharagraff 2(1) (symiau plentyn neu berson ifanc), yn lle "£83.24", yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder "£84.66";

(c) ym mharagraff 3 (premiwm teulu), yn lle "£19.15" rhodder "£19.48";

(d) yn yr ail golofn (swm) yn y Tabl ym mharagraff 12 (symiau'r premiymau a bennir yn Rhan 3)—

(i) yn is-baragraff (1), yn lle "£81.50" yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder "£82.90" ac yn lle "£163.00" rhodder "£165.80";

(ii) yn is-baragraff (2), yn lle "£32.20" rhodder "£32.75";

(iii) yn is-baragraff (3), yn lle "£80.01" rhodder "£81.37";

(iv) yn is-baragraff (4), yn lle "£45.60" rhodder "£46.40".

**21.** Yn Atodlen 3 (symiau cymwysadwy: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

(a) yng ngholofn (2) o'r Tabl ym mharagraff 1 (lwfansau personol)—

(i) yn is-baragraff (1), yn lle "£96.45", yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder "£98.10" ac yn lle "£76.35" rhodder "£77.65";

(ii) yn is-baragraff (2), yn lle "£96.45" rhodder "£98.10";

(iii) yn is-baragraff (3), yn lle "£151.45" rhodder "£154.00";

(b) yng ngholofn (2) o'r Tabl ym mharagraff 3(1) (swm), yn lle "£83.24", yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder "£84.66";

(c) ym mharagraff 4(1)(b) (premiwm teulu), yn lle "£19.15" rhodder "£19.48";

(d) yn yr ail golofn (swm) o'r Tabl ym mharagraff 17 (symiau'r premiymau a bennir yn Rhan 3)—

(i) yn is-baragraff (1), yn lle "£42.50" a "£60.60" rhodder "£43.20" a "£61.65" yn y drefn honno;

(ii) yn is-baragraff (2), yn lle “£81.50”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “£82.90” ac yn lle “£163.00” rhodder “£165.80”;

(iii) yn is-baragraff (3), yn lle “£80.01” rhodder “£81.37”;

(iv) yn is-baragraff (4), yn lle “£45.60” rhodder “£46.40”;

(v) yn is-baragraff (5), yn lle “£32.20”, “£20.85” a “£29.75” rhodder “£32.75”, “£21.20” a “£30.25” yn y drefn honno;

(e) ym mharagraff 23, yn lle “£35.95” rhodder “£36.55”;

(f) ym mharagraff 24, yn lle “£47.70” rhodder “£48.50”.

**22.** Yn Atodlen 8 (diystyriadau cyfalaf: pensiynwyr), ym mharagraff 16(1)(a), ar ôl “Cronfa Argyfwng We Love Manchester,” mewnosoder “y Cynllun Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth Dramor,”.

**23.** Yn Atodlen 9 (diystyriadau cyfalaf: personau nad ydynt yn bensiynwyr), ym mharagraff 29(1), ar ôl “Cronfa Argyfwng We Love Manchester,” mewnosoder “y Cynllun Digolledu Dioddefwyr Terfysgaeth Dramor,”.

*Enw*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad